# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol**

***Atodlen 6 – Lesoedd***

**Rhan 5 - Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi**

**Lesoedd preswyl, lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg**

268. Mae paragraff 26 yn diffinio caffael lesoedd preswyl, lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg.

**Dim treth i'w chodi mewn cysylltiad â rhent: lesoedd preswyl**

269. Mae paragraff 27 yn darparu nad oes treth trafodiadau tir i'w chodi mewn perthynas â'r rhent a delir o dan les breswyl. Mae unrhyw gydnabyddiaeth arall nad yw'n rhent yn parhau'n drethadwy o dan y rheolau arferol. Darperir p#er i wneud rheoliadau fel y gall Gweinidogion Cymru ddarparu bod treth i'w chodi ar renti o'r fath. Darperir pwerau pellach fel y gall Gweinidogion Cymru bennu'r cyfraddau a'r bandiau cychwynnol a dilynol a fyddai'n gymwys pe baent yn gwneud rhenti o'r fath yn drethadwy.

**Cyfraddau treth a bandiau treth: elfen rhent lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg**

270. Mae paragraff 28 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau fel y gallant bennu'r cyfraddau a'r bandiau treth cychwynnol a dilynol a fydd yn gymwys i'r rhenti a delir o dan lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg. Rhaid i'r cyfraddau a'r bandiau gynnwys band cyfradd sero, y cyfraddau a'r bandiau eraill uwchlaw'r band cyfradd sero, a hefyd y dyddiad y bydd y cyfraddau a'r bandiau hynny yn gymwys.

**Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â rhent: lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg**

271. Mae paragraff 29 yn nodi'r camau sydd i'w cymryd er mwyn cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi, sef cymhwyso'r gyfradd dreth i'r swm o'r gydnabyddiaeth sydd o fewn band treth penodol, ac yna adio'r symiau hynny at ei gilydd.

**Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â rhent: trafodiadau cysylltiol**

272. Mae paragraff 30 yn darparu'r rheolau cyfrifo pan fo'r trafodiad yn gysylltiol ag un trafodiad arall neu ragor.

## Gwerth net presennol

273. Mae paragraff 31 yn darparu'r fformiwla ar gyfer pennu gwerth net presennol taliadau rhent yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod taliadau rhent mewn blynyddoedd i ddod yn cael eu trethu ar sail swm sy'n cynrychioli gwerth y taliad ar y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

## Y gyfradd disgownt amser

274. Mae paragraff 32 yn pennu'r gyfradd disgownt amser sydd i'w defnyddio yn y fformiwla gwerth net presennol. Nodir mai 3.5% yw'r gyfradd, a chaiff Gweinidogion Cymru ei hamrywio drwy reoliadau.

## Treth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ar wahân i rent: cyffredinol

275. Mae paragraff 33 yn cadarnhau bod cydnabyddiaeth ar wahân i rent yn cael ei threthu o dan ddarpariaethau'r Ddeddf, a bod treth a godir o dan yr Atodlen hon yn ychwanegol at y dreth a gyfrifir o dan y darpariaethau eraill.

## Treth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ar wahân i rent: lesoedd cymysg

276. Mae paragraff 35 yn darparu bod cydnabyddiaeth ar wahân i rent ar gyfer les gymysg i'w rhannu, ar sail deg a rhesymol, rhwng eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl a bod y ddau drafodiad tybiannol hynny i'w trin fel trafodiadau cysylltiol.

## Y rhent perthnasol

277. Mae paragraff 36 yn diffinio "y rhent perthnasol", "y swm penodedig" ac "y rhent blynyddol". Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio neu ddiddymu paragraffau 34 i 36 o'r Atodlen hon. Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.